

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Llun 3 Gorffennaf 2017 am 1pm.

Yn bresennol

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G E Hopkins - Cadeirydd

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-

C Leyshon, J Rosser, R Yeo, M Weaver, J James, S Rees-Owen

Swyddogion oedd yn Bresennol:-

Mr C Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Ms A Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant

Ms G Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant

Ms S Edwards - Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms J Thomas - Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

Ms H Bevan – Cydlynnydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Ms H Jeans - Blaen Seicolegydd Addysg

Mr J O'Brien - Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc

Ms E Phipps-Magill - NYAS Cymru

Ms H Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a chafodd cyflwyniadau eu gwneud.

PENDERFYNWYD:

- a) Gwahodd cynrychiolydd allanol o Lywodraeth Cymru, er budd Aelodau newydd, i gyfarfod nesaf y Bwrdd i amlinellu dyletswyddau a rheoliadau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

3. COFNODION

PENDERFYNWYD:

- a) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017 yn rhai cywir.

4. ADNODD YSGOLION CYFEILLGAR PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Rhoddodd Cydlynnydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gyflwyniad ar lafar i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas ag adnodd Ysgolion Cyfeillgar Plant sy'n Derbyn Gofal newydd ac addysgiadol.

Esboniodd y Swyddog fod yr adnodd newydd yn rhan o waith ar y cyd gan Gynghorau RhCT a Merthyr Tudful a gafodd ei ariannu gan Grant Amddifadedd Disgyblion, Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2015-16 a chafodd ei gomisiynu gan y Seicolegydd Addysg.

Cafodd yr adnodd ei greu i fod yn adnodd addysgiadol a dealladwy ar gyfer ysgolion, gan gyfuno llais ac anghenion y plant, yn ogystal â strategaethau Llywodraeth Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Arweiniodd y swyddog y Bwrdd drwy benodau'r adnodd, gan ddisgrifio buddiannau pob un:-

Pennod 1

Mae pennod gyntaf yr adnodd yn rhoi eglurhad ynghylch terminoleg ac acronymau cyffredin.

Pennod 2

Mae ail bennod yr adnodd yn cynnig gwybodaeth a strategaethau ymarferol i ddefnyddwyr adeiladu perthnasau gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal â manylion eglur o'r theori ymlyniad.

Pennod 3

Mae trydedd bennod yr adnodd yn ystyried pob elfen sydd ei hangen i sicrhau bod ysgol yn ysgol gyfeillgar Plant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant i staff, dulliau rhwystro i fagu cadernid, gwella sefydlogrwydd emosiynol, bod yn gadarnhaol a chyfeillgarwch plant sy'n derbyn gofal.

Pennod 4

Mae'r bedwaredd bennod yn cydnabod bod gan blant sy'n rhan o'r system gofal rwydweithiau cymhleth o gefnogaeth wedi'u hadeiladu o'u cwmpas nhw. Er mwyn cwrdd ag anghenion y plant, rhaid cael deialog rheolaidd gyda chynhalwyr (gofalwyr)

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

a gweithwyr proffesiynol eraill. Pwysleisiodd y swyddog bwysigrwydd lleisio barn y rhieni maeth a gweithwyr proffesiynol eraill, sy'n teimlo nad yw'u llais yn cael ei glywed.

Esboniodd y swyddog i Dynamix gael ei gomisiynu i sicrhau llais y plentyn mewn addysg a chyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at dudalen 54 yr adnodd lle mae barn y rheiny dan sylw wedi'i nodi.

Gorffennodd y swyddog y cyflwyniad gan esbonio bydd lansiad yr adnodd yn cael ei gynnal ar 12 Medi 2017 lle bydd cydweithwyr ac ysgolion Gwasanaethau i Blant yn derbyn gwahoddiad i ddefnyddio'r adnodd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog a'r garfan am y darn sylweddol o waith, gan ddweud y bydd e'n adeiladu ar y sylfaen wedi'i hadeiladu gan Bwyllgor Craffu - Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cyngor ar y cyd â Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc a gwblhaodd ddarn o waith mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg yn 2015.

Mynegodd aelodau o'r Bwrdd ddiolchgarwch bod lleisiau'r plant a'r rhwydwaith o'u cwmpas wedi cael cyfle i gael ei glywed, gan ychwanegu bod yr adnodd yn ddealladwy a bydd e'n rhoi gwybodaeth i nifer o bobl.

Canmolodd y cynrychiolydd o NYAS Cymru yr adnodd, gan ofyn a fydd e'n cael ei rannu gydag Awdurdodau Lleol eraill. Cytunwyd y bydd yr adnodd yn cael ei rannu yn y pen draw gyda phob sefydliad perthnasol.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Bydd Swyddog Busnes y Cabinet yn sicrhau bod pob Aelod Etholedig yn derbyn copi caled o'r adnodd.

5. LLETY PLANT 16 A 17 OED DIGARTREF SY'N GWEITHIO GYDA CHARFANAU TROSEDDAU'R IFAINC

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynghylch arolygiad thematig Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 2016 a roddodd sylw i ddarpariaeth llety pobl ifainc 16 a 17 oed oedd yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Esboniodd y Swyddog nad oedd rhaid i Wasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf fod yn rhan o'r adolygiad, ond ers hynny mae'r gwasanaeth wedi bod yn destun arolygiad llawn ar y cyd mewn perthynas ag ehangder o ddarpariaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc gan gynnwys anghenion pobl ifainc.

Ar ôl arolygiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 2016, cafodd ei ganfod bod un allan o dri pherson ifanc a gafodd ei archwilio yn byw mewn llety anaddas. Hefyd, roedd pob achos wedi dioddef rhyw fath o drawma yn ystod ei fywyd, ac roedd gwasanaethau i blant yn adnabod y rhan fwyaf ohonyn nhw.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

Esboniodd y swyddog fod yna lefel o gymhlethdod gyda'r bobl ifainc, ac yn enwedig eu disgwyliadau uchel o'r llety wedi'i ddarparu ar eu cyfer, yn ogystal ag argaeledd. Sicrhaodd y swyddog yr Aelodau fod gwaith wrthi'n cael ei wneud gyda chwmni Trivallis i ddarparu dealltwriaeth ehangach o'r llety sydd ar gael i bobl ifainc.

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd eu cyfeirio at yr argymhellion wedi'u hamlinellu yn adran 2 yr adroddiad ar gyfer eu sylwadau.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad a gofynnodd iddo a yw camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phob argymhelliad. Eglurodd y swyddog fod y manylion o dan bob pwynt yn rhoi datrysiad i'r argymhellion. Enghraifft o hyn oedd yr wybodaeth ar yr asesiad ASSETplus sy'n sicrhau bod pob person ifanc yn cwblhau asesiad bregusrwydd i'w rwystro rhag cael ei roi mewn llety Gwely a Brechwast. Ychwanegodd y swyddog fod nifer o bobl ifainc sydd wedi cael eu rhoi mewn llety Gwely a Brechwast yn parhau i gael eu monitro gan gynnig cynllunio a chefnogaeth.

Cwestiynodd y Cadeirydd ddeilliannau'r arolygiad diweddar ar y cyd wedi'i gynnal gan Wasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf ac wedi gofyn a ydy'r camau gweithredu wedi cael eu nodi. Cadarnhaodd y swyddog eu bod nhw wedi'u nodi.

Nododd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant fod yr adroddiad, ar y cyfan, yn gadarnhaol ar lefel weithredol ac o ganlyniad i'r adroddiad fod yn un thematig, mae modd i'w wella.

Nododd Cadeirydd Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc fod yr adroddiad o fudd a gofynnodd a oes modd i'r adroddiad gael ei gyfeirio i'r pwyllgor am sylwadau eraill. Cytunodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y byddai o fudd i Bwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc graffu'r adroddiad ar wahân i Bwyllgor Cyngor Merthyr Tudful, a dylai unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno i'r Adain Weithredol er mwyn cymryd camau gweithredu.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, a bydd yr adain Weithredol yn gweithredu unrhyw sylwadau penodol eraill.

**6. CANMOLIAETHAU A CHWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 1
HYDREF 2016 - 31 RHAGFYR 2016**

Rhoddodd Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion drosolwg i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o effeithiolrwydd gweithdrefn gwyno statudol Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Rhagfyr 2016.

Mae gan yr adroddiad wybodaeth am nifer y cwynion wedi'u derbyn, cynnwys y cwynion a'r hyn sydd wedi'i ddysgu, yn ogystal â manylion am ymholiadau Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion wedi'u derbyn.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

Esboniodd y swyddog i Aelodau o'r Bwrdd fod adroddiad cwynion y trydydd chwarter Gwasanaeth i Oedolion wedi cael ei gynnwys a bod modd dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â Gwasanaethau i Blant ar dudalen 159 y taflenni.

Nododd y swyddog iddyn nhw dderbyn 13 canmoliaeth yn ystod y trydydd chwarter, o'u cymharu â 19 a dderbyniwyd yn y chwarter blaenorol, ond bod rhagor o ganmoliaethau wedi cael eu derbyn ond heb gael eu cofnodi.

Esboniodd y swyddog mai problemau staff yw'r prif reswm dros gwynion anffurfiol wedi'u gwneud gan oedolion a rhieni, o ganlyniad i faterion graddfa amser ond bydd y mater yn parhau i gael ei fonitro.

Cynghorwyd Aelodau o'r Bwrdd bod yna gynnydd bach yn nifer y cwynion wedi'u derbyn yng nghanam 2 a gofynnodd yr Aelodau am y rheswm dros hyn. Esboniwyd nad oes un rheswm dros y cynnydd ac mae modd pennu nifer o ffactorau sydd, o bosib, wedi cyfrannu at y cynnydd. Un o'r ffactorau yma yw teuluoedd sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Ombwdsmon, a gafodd eu cynghori i ddefnyddio'r broses ffurfiol.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ddiolch i'r swyddog a'r garfan am y dull maen nhw'n ei weithredu wrth ddelio â chanmoliaethau a chwynion, gan ddweud bod y dull yn broffesiynol. Ychwanegodd y swyddog fod cyfuno canmoliaethau a chwynion gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant yn ddull defnyddiol i bennu tueddiadau a gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad

4. GWAHARDD AELODAU O'R WASG AC AELODAU O'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef gwybodaeth sy'n cyfeirio at unigolyn penodol. Bydd tryloywder yn ymddygiad a galluoedd unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. O ganlyniad, ystyrir bod y buddiant cyhoeddus i gynnal yr eithriad yn gorbwysu'r buddiant cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth o'r fath fydd rhaid cadw aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

5. NYAS - CWYNIION CHWARTER 2

Cyflwynodd Ms E Phipps-Magill adroddiad chwarterol i'r Bwrdd ar ran NYAS ar gyfer y cyfnod 1 Rhagfyr 2016 - 28 Chwefror 2017.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

6. ADRODDIADAU RHEOLIAD 32

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Preswyl y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynghylch yr ymweliadau Rheoliad 32 â thri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr a Nantgwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ddeilliannau'r arolygiad a **PHENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Bydd ymweliadau â'r tri chartref i blant yn cael eu gwneud ar adeg gyfleus i'r plant yn y dyfodol.

7. UNRHYW FATERION ERAILL

Cyhoeddodd y Cadeirydd bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cael ei gynnal ddydd Llun 25 Medi 2017.

Atgoffodd y Cadeirydd Aelodau Etholedig bod y dyddiadau wrthi'n cael eu dosbarthu, mewn perthynas ag ymweliadau'r rheng flaen ag ardaloedd amrywiol o Wasanaethau i Blant y Cyngor. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr ymweliadau, a bydd Aelodau, yn enwedig Aelodau newydd, yn ennill dealltwriaeth fwy sylweddol o ganlyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:15

**Y Cyngorydd G Hopkins
Cadeirydd**